# Cynllun Rheoli Cenedlaethol Amlflwydd

Sut rydym yn ymwneud â gwahanol awdurdodau a sefydliadau i orfodi rheoliadau.
I’w nodi: Ar ôl i’r DU ymadael â’r UE ym mis Ionawr 2020, cafodd y cyfrifoldeb am Gynllun Rheoli Cenedlaethol Amlflwydd Prydain Fawr (GB MANCP) a’i adroddiad blynyddol ei drosglwyddo’n ffurfiol i Defra. Fel yr arweinydd ar fasnach ryngwladol, mae Defra bellach yn rheoli’r gwaith o gasglu, cynnal a chadw a chyhoeddi’r dogfennau hyn.

Mae Gogledd Iwerddon yn cynhyrchu ei hadroddiad ar wahân ei hun (Adroddiad Blynyddol ar Reolaethau Swyddogol), a gyflwynir yn uniongyrchol i Gomisiwn yr UE, yn unol â Phrotocol Gogledd Iwerddon.

Mae Defra wrthi’n creu gwefan newydd i gynnal MANCP Prydain Fawr ac adroddiadau blynyddol terfynol o 2020 ymlaen. Bydd y dudalen we hon yn parhau i fod yn weithredol fel dalfan nes bydd y gwaith hwn wedi’i gwblhau.

Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau sy’n ymwneud â’r MANCP, a’i adroddiadau blynyddol i mancp@defra.gov.uk

Mae Cynllun Rheoli Cenedlaethol Amlflwydd integredig y Deyrnas Unedig (UK MANCP) yn cael ei baratoi yn unol â gofynion Erthyglau 109 i 111 o Reoliad (UE) 2017/625 a ddargedwir. O dan y rheoliad hwn, mae’n ofyniad cyfreithiol bod gan y DU gynllun rheoli cenedlaethol. Diben y MANCP yw dangos bod systemau rheoli effeithiol ar waith ar gyfer monitro a gorfodi:

- cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid
- rheoliadau iechyd anifeiliaid a lles anifeiliaid
- cyfraith iechyd planhigion, gan gynnwys diogelu iechyd defnyddwyr mewn perthynas â chynhyrchion amddiffyn planhigion

Mae’r Cynllun Rheoli yn cynnwys gwybodaeth am strwythur, rolau a chyfrifoldebau’r awdurdodau cymwys amrywiol sy’n ymwneud â monitro cydymffurfiaeth a gorfodi. Mae’n rhoi trosolwg o sut mae awdurdodau cymwys a chyrff eraill yn cydweithio, a hynny er mwyn:

- diogelu iechyd y cyhoedd, anifeiliaid a phlanhigion
- diogelu defnyddwyr
- hyrwyddo lles anifeiliaid

Mae’r MANCP yn cael ei lunio gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) gyda chyfraniadau gan:

- Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra) a’i hasiantaethau
- Safonau Bwyd yr Alban
- Yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol
- Cyfarwyddiaeth Rheoleiddio Cemegion yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch
- Amaethyddiaeth, Bwyd a Chymunedau Gwledig Llywodraeth yr Alban
- Adnoddau Naturiol Llywodraeth Cymru
- Adran Amaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig yng Ngogledd Iwerddon

## Datblygu ac adolygu’r cynllun

Yn unol â Rheoliad (UE) 2017/625 a ddargedwir, mae MANCP y DU yn cael ei adolygu yn flynyddol.

Cafodd y MANCP ei ddiweddaru ym mis Rhagfyr 2019 i ystyried cyflwyno'r Rheoliad Rheolaethau Swyddogol (UE) 2017/625 newydd a ddargedwir ar 14 Rhagfyr 2019, a ddiddymodd ac a ddisodlodd Reoliad (CE) Rhif 882/2004. Mae'r MANCP hwn ar waith tan fis Mawrth 2023.

## England, Northern Ireland and Wales

PDF
Gweld Cynllun Rheoli Cenedlaethol Amlflwydd y Deyrnas Unedig Ebrill 2019 i Mawrth 2023 (wedi'i ddiweddaru 2019) as PDF(Open in a new window) (1.85 MB)

## Adroddiad Blynyddol ar y cynnydd tuag at weithredu MANCP y DU

Mae cynnydd ar weithredu'r MANCP yn cael ei fonitro'n barhaus a chaiff adroddiadau blynyddol eu paratoi a'u cyhoeddi gan yr ASB gyda chyfraniadau gan holl awdurdodau cymwys y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig.

O adroddiad blynyddol MANCP 2020 ymlaen bydd Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon yn llunio eu hadroddiadau eu hunain ar wahân yn unol â Phrotocol Gogledd Iwerddon.

## England, Northern Ireland, Scotland and Wales

PDF
Gweld Progress towards implementation of Multi-Annual National Control Plan for the United Kingdom 2019 as PDF(Open in a new window) (2.07 MB)

## England, Northern Ireland, Scotland and Wales

PDF
Gweld Progress towards implementation of Multi-Annual National Control Plan for the United Kingdom 2018 as PDF(Open in a new window) (1.73 MB)

## England, Northern Ireland and Wales

PDF
Gweld Cynnydd tuag at weithredu Cynllun Rheoli Cenedlaethol Amlflwydd y Deyrnas Unedig 2017 as PDF(Open in a new window) (3.39 MB)
PDF
Gweld Cynnydd tuag at weithredu Cynllun Rheoli Cenedlaethol Amlflwydd y Deyrnas Unedig 2016 as PDF(Open in a new window) (3.05 MB)